# Ysgogiad trydanol niwrogyhyrol drwy'r croen ar gyfer dysffagia'r oroffaryncs ymhlith oedolion

19 Rhagfyr 2018

Mae tystiolaeth ar ysgogiad trydanol niwrogyhyrol drwy'r croen yn dangos nad oes unrhyw bryderon ynglŷn â pha mor ddiogel yw'r driniaeth hon. Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio i oedolion â dysffagia ar ôl iddynt gael strôc. Gellir defnyddio'r driniaeth hon, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau, a hynny oherwydd y pryderon ynglŷn â'i heffeithiau hirdymor.

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gellir rhoi'r driniaeth hon i oedolion â dysffagia sydd heb ei achosi gan strôc, a hynny am nad oes tystiolaeth ddigonol ynghylch pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio.

Ystyr dysffagia'r oroffaryncs yw pan fydd pobl yn cael trafferth dechrau llyncu. Gall achosi peswch, tagu ac ymdeimlad bod bwyd yn sownd. Mae'r driniaeth hon yn cynnwys ysgogi nerfau yn y llwnc neu'r gwddf yn drydanol drwy osod electrodau ar y croen tra bydd yr unigolyn yn llyncu. Y nod yw cryfhau'r cyhyrau sy'n gysylltiedig â llyncu.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

### *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, egluro'r astudiaeth ymchwil, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth ac i fod yn rhan o'r astudiaeth.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### *Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt*

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3199-6

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights